**Adroddiad at y:** Cyngor Llawn

**Dyddiad y Cyfarfod:** Chwefror 26ain, 2013

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Jones – Dirpryw Swyddog Monitro

**Teitl:** Penodiad i'r Pwyllgor Safonau

---

## 1. Ynglŷn â be mae'r adroddiad?

Penodi Aelod Annibynnol (Cyfetholedig) o'r Pwyllgor Safonau.

## 2. Be ydi'r rheswm am greu'r adroddiad hwn?

Mae'r rheoliadau llywodraethol mewn perthynas â chyfansoddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gofyn am bwyllgor o rhwng pump a naw aelod, yn cynnwys personau sy'n annibynnol o'r Cyngor, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. Oherwydd treigl amser, a'r cyfyngiadau amser cyfreithiol o fewn i ba rai y gall unrhyw un o'r Aelodau Annibynnol wasanaethu, mae hi bellach yn angenrheidiol i'r Cyngor Llawn ystyried un ai ailbenodiad am un tymor swydd pellach neu i gyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ail-hysbysebu'r penodiad.

## 3. Be ydi'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn argymell :

3.1 Ail-benodiad Ms Margaret Medley neu,
3.2 Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ddechrau recriwtio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Diwygiwyd deddfwriaeth y Pwyllgorau Safonau yn 2006 ac ers hynny, gall aelodau wasanaethu am ail dymor olynol sy, yn achos aelodau annibynnol, wedi'i gyfyngu i bedair blynedd. Mae'r un aelod annibynnol sy'n gymwys i wasanaethu tymor pellach wedi mynegi dymuniad i barhau yn ei rôl ac fe wahoddir y Cyngor i ystyried yr ail-benodiad neu i gyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ail-hysbysebu'r swyddogaeth. Yn achos ail-benodiad am un tymor pellach, mae'r rheoliadau diwygiedig nawr yn gosod amod nad oes gofyniad i ail-benodi trwy hysbyseb.

4.2 Mae'r aelod annibynnol, Ms Margaret Medley, wedi mynegi dymuniad i barhau yn ei rôl ac fe atodir llythyr at y Swyddog Monitro. Gan nad ydi Ms Medley yn

aelod etholedig, mae ei chyfeiriad personol wedi'i olygu o'r adroddiad cyhoeddus hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Pwyllgor Safonau cynrychioliadol, yn gweithredu'n llawn, sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau, yn helpu cynnal Cyngor wrth iddi ymarfer ei swyddogaethau democrataidd.

**6. Be fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim goblygiadau ar gyfer gwasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Yn achos y penodiad yn cael ei ail-hysbysebu, fe fydd rhywfaint o gostau hysbysebu uniongyrchol wrth recriwtio aelod annibynnol newydd, ynghyd ag amser swyddog ac aelod yn delio â'r broses recriwtio. Mae hawl gan aelodau cyfetholedig i'w talu lwfans yn unol â lefelau gorfodol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae'r cyfraddau yn gyfradd ddyddiol ac ar gael ar eu gwefan.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Gyda golwg ar swyddi gwag aelodau annibynnol, does dim angen ymgynghoriadau statudol. Yn ychwanegol, mae'r swydd wag hon wedi'i hysbysebu mewn dau bapur newydd lleol ar adeg y penodiad gwreiddiol.

**8. Datganiad Prif Swyddog Cyllid**

Does dim goblygiadau ariannol arwyddocaol amlwg ynghlwm yn yr adroddiad.

**9. Pa risgiau sy ac oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?**

Bydd y Cyngor yn torri'r ddeddfwriaeth lywodraethol ac ni fydd ganddo bwyllgor yn ei le i ddelio gydag unrhyw faterion a gaiff eu cyfeirio ato gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

**10. Grym i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006.